NEWYDDION o'r ysgolion

Ysgol Penrhyn-coch

Yn y rhifyn diwethaf o'r *Tincer* gwnaethom addewid y buasem yn rhoddi peth o'n hanes yng Ngwersyl Ysgol Pentywyn neu Pendein. Aeth dau ar bymtheg ohonom gyda Mr Evans y Prifathro i dreulio wythno yno a chawsom amser ardderchog a'r tywydd yn eithriadol o boeth. Yr oedd plant o ddwy ysgol arall yno hefyd. Yr oedd y diwrnod yn cychwyn am tua chwarter wedi saith y bore ond roedd yr athrawon ar lawr ymhell cyn hynny. Yn syth ar ôl codi yr oedd y plant i gyd yn cael cawod ac yna ar ôl brecwast da yr oedd pawb ohonom yn mynd lawr i'r traeth ac yn treulio'r bore yno yn astudio'r gwahanol blanhigion ar y creigiau a'r pysgod a oedd yn y pyllau bychain. Yr oedd cinio am hanner awr wedi deuddeg ac yna 'roedd yn rhaid paratoi ar gyfer taith gerdded i astudio ffosiliau neu fan hanesyddol yn yr ardal. Ar ôl cinio am chwech o'r gloch yr oedd gwersi ac yna tua hanner awr wedi wyth byddai'r athrawon yn dangos ffilmiau i ni. Yn syth wedi hynny yr oeddem i gyd yn mynd i'r ystafell fwyta ac yn cael cawl neu goco cyn mynd yn ôl i'n hystafelloedd cysgu a pharatoi am y gwely.

Yr oedd pob un yn gorfod gwneud ei wely ei hun ac yn gyfrifol am gadw'r lle'n daclus. Caem lawer iawn o hwyl a chawsom sbri'n iawn pan gwympodd un o'r prifathrawon (nid Mr Evans) ar ei ben i'r môr.

Cawsom dreulio prynhawn yn Lacharn a gwelsom fedd Dylan Thomas ym mynwent yr eglwys yno. Buom hefyd yn gweld y "Boat House" lle trigai a'r caban lle'r ysgrifennodd llawer o'i waith.

Buom yn Ninbych y Pysgod hefyd a threulio amser difyr yn yr amgueddfa wych sydd yno. Cawsom gyfle i siopa tipyn hefyd. Un bore aethom i ffatri wydr a chawsom weld y dynion yn chwythu'r gwydr a chael y cyfle i wneud hynny ein hunain.

Heb unrhyw amheuaeth cawsom amser ardderchog yn y gwersyll ac er ein bod i gyd wedi blino'n llwyr pan gyrhaeddom yn ôl ym Mhenrhyn-coch ddiwedd yr wythnos yr ydym yn edrych ymlaen yn barod i dreulio wythnos gyffelyb ym Mhentywyn fis Mehefin nesaf. Gobeithio bydd Mr Evans yn fodlon mynd â ni.